



Ein cyf/Our ref MA/P/LG/3010/18

Mike Hedges AC  
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

7 Medi 2018

Annwyl Mike,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 09 Awst 2018 ar ran y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ynglŷn â gwaith craffu'r Cynulliad ar y Rheoliadau Cyllidebu Carbon.

O ran datblygu'r rheoliadau ategol, rwyf wedi rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor drwy gydol y Rhaglen. Cyn lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Gorffennaf, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig a oedd yn nodi penderfyniadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â phennu targedau lleihau allyriadau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040, a lefel y ddwy gyllideb garbon gyntaf. Mae'r Rheoliadau hyn a'r Memorandwm Esboniadol bellach yn cael eu drafftio i'w trafod yn y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr. Rydym bellach yn canolbwyntio ar nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd drwy ein Cynllun Cyflawni.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn destun proses adolygu yn ymwneud â'r weithdrefn archwilio ar gyfer pennu ein cyllidebau carbon a'r Cynllun Cyflawni drwy ddatblygu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. O ganlyniad i broses y Cynulliad, mae'r Ddeddf yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru bennu ein cyllidebau carbon mewn rheoliadau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2018 a phan fydd cytundeb ar y gyllideb, byddwn wedyn yn cyhoeddi Cynllun cyflawni sy'n cwmpasu cyfnod cyntaf y gyllideb. Nid yw'n ymarferol cyhoeddi Cynllun cyflawni nes bod uchafswm y gyllideb garbon wedi'i bennu ac mae hynny'n amodol ar weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn benodol, mae adran 39 o'r Ddeddf yn darparu amser yn dilyn pennu ein cyllidebau carbon i ddatblygu, a chyhoeddi, polisiau a chynigion i gyflawni'r ymyriadau. Mae'r Ddeddf yn darparu hyd at 12 mis ar gyfer cyllidebau carbon yn y dyfodol sy'n gyson â'r dulliau a fabwysiadwyd yn yr Alban a chan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, gan gydnabod ein bod eisoes yn y cyfnod cyllidebol cyntaf, cyflwynwyd cymal, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad cyntaf gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn dilyn pennu'r gyllideb garbon gyntaf. Rwyf eisoes wedi dod â'r dyddiad cyhoeddi yn ei flaen i gydnabod y brys ac rwyf eisoes wedi ymrwymo'n gyhoeddus i gyhoeddi'r adroddiad cyn diwedd mis Mawrth 2019.

Craffwyd ar y ddeddfwriaeth sylfaenol ei hun drwy broses y Cyfarfod Llawn ac o fewn y Pwyllgor pan oedd ar ffurf Bil drafft, lle y cytunwyd ar y broses uchod ac yn dilyn hynny rydym wedi datblygu ein fframwaith cyfan ar y sail hon.

Nid yw cyhoeddi'r Cynllun Cyflenwi Carbon Isel cyn cytuno ar y rheoliad cyllideb garbon gyntaf, a thri mis yn gynnar, yn ymarferol ac nid yw'n cyd-fynd ag ysbryd y Ddeddf. Felly, ni fyddaf yn cyhoeddi'r Cynllun ochr yn ochr â'r Rheoliadau ym mis Rhagfyr.

Fodd bynnag, mae sawl ffordd i'r Pwyllgor gyfrannu at hyn, megis drwy ein Hymgyngoriad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n nodi llawer iawn o gyd-destun a rhesymeg ar gyfer ein dull strategol arfaethedig. Mae dau ddiwyddiad rhanddeiliad yn cael eu cynnal i gefnogi'r ymgynghoriad. Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ffurfio un haen o dystiolaeth, a fydd yn sail i'n dadansoddiad. Mae hyn yn rhedeg ochr yn ochr â rhaglen gynhwysfawr o waith sy'n gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru sy'n edrych ar ymyriadau polisi carbon isel.

Byddaf hefyd yn gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn ym mis Medi ar ôl y Pwyllgor Craffu yn gynharach eleni.

Mae datblygu fframwaith polisi i fodlon ein hamcanion dadgarboneiddio, ac amcanion ehangach Llywodraeth Cymru, yn her gyffrous ac yn un yr wyf wedi ymrwymo iddi. Fodd bynnag, mae hefyd yn gymhleth. Mae rhai heriau penodol yng Nghymru yn ymwneud â chyflawni ein huchelgeisiau carbon isel, a'r her fwyaf yw maint ein sector diwydiannol. Fodd bynnag, gallai'r heriau hefyd gynnig cyfleoedd sylweddol i Gymru gyda'r ymateb polisi cywir.

Mae'n ddyletswydd arnaf i sicrhau bod y fframwaith polisi yn addas at y diben ac yn dod â'r gwerth mwyaf i ddinasyddion Cymru yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



**Lesley Griffiths AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

